Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

INF212/1W

# Sut i wneud cais am eich trwydded yrru ar ôl cael eich gwahardd am drosedd yfed a gyrru

Am fwy o wybodaeth ewch i
**www.gov.uk/reapply-licence-revoked**




CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE



## Rwyf wedi cael fy ngwahardd am drosedd yfed a gyrru. Sut ydw i'n cael fy nhrwydded yn ôl?

Bydd yr hyn fydd raid i chi ei wneud yn dibynnu os ydych chi'n dod o fewn y categori Troseddwyr Risg Uchel (HRO) ymhlith gyrwyr yfed a gyrru a gafwyd yn euog.

## Sut ydw i'n gwybod os ydw i'n dod o fewn y categori HRO?

**Byddwch yn dod o fewn y categori HRO os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:**

- Rydych wedi cael eich gwahardd rhag gyrru, neu wedi bod yn gyfrifol am gerbyd, pan oedd lefel alcohol yn y corff yn gyfartal i neu'n uwch na:
  - 87.5 meicrogram mewn 100 mililitr o anadl;
  - 200 miligram mewn 100 mililitr o waed, neu
  - 267.5 miligram mewn 100 mililitr o wrin
- Dau waharddiad o fewn cyfnod o ddeng mlynedd am yrru dros y terfyn cyfreithiol, neu yn anghymwys i yrru oherwydd diod alcohol
- Gwaharddiad am wrthod neu fethu rhoi sampl o anadl, gwaed neu wrin ar gyfer prawf.
- Gwaharddiad am wrthod dadansoddiad o sampl gwaed a gymrwyd oherwydd analluogrwydd.

Nid yw llysoedd yn awtomatig yn eich hysbysu os ydych o fewn y categori HRO fel canlyniad i euogfarn yfed a gyrru.

## Dydw i ddim yn y categori HRO, sut ydw i'n cael fy nhrwydded yn ôl?

Byddwn yn anfon ffurflen gais adnewyddu trwydded atoch 56 diwrnod cyn i'ch gwaharddiad ddod i ben (Rhaid i chi ein hysbysu am unrhyw newid cyfeiriad tra eich bod wedi eich gwahardd).

Os na fyddwch yn derbyn hon ac eich bod yn ddaliwr trwydded car/beic modur yn unig, dylech lenwi ffurflen D1 'Cais am drwydded yrru' y gellir ei harchebu o **www.gov.uk/dvlaforms** neu o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n cynnig gwasanaethau ar gyfer Cerbydau a Gyrru. Os ydych yn ddaliwr trwydded lori, fws neu fws mini mae angen i chi lenwi 'Cais am drwydded yrru ar gyfer lori, fws neu fws mini' (D2) y gellir ei harchebu o **www.gov.uk/dvlaforms** neu wrth Swyddfa'r Comisiynwyr Traffig.

**Noder:** Os cewch eich gwahardd eto am yfed a gyrru o fewn y 10 mlynedd nesaf, byddwch wedyn yn cael eich rhoi o fewn y categori HRO.

## Rydw i o fewn y categori HRO, sut ydw i'n cael fy nhrwydded yn ôl?

**Ni chewch eich trwydded yn ôl nes i chi fodloni ein meddygon eich bod yn abl yn feddygol i yrru eto. Golyga hyn bod raid i chi fynd drwy archwiliad meddygol, gan gynnwys profion gwaed.**

Byddwn yn anfon y ffurflen gais angenrheidiol atoch 90 diwrnod cyn y daw eich gwaharddiad i ben. Mae'n rhaid ein hysbysu o unrhyw newid cyfeiriad yn ystod cyfnod eich gwaharddiad. Bydd y 90 diwrnod fel arfer yn caniatáu digon o amser i gwblhau'r asesiad meddygol cyn y daw eich gwaharddiad i ben.

Os ni wnewch dderbyn y ffurflen gais ac eich bod yn ddaliwr trwydded car/beic modur yn unig, dylech lenwi ffurflen D1 'Cais am drwydded yrru' y gellir ei harchebu o **www.gov.uk/dvlaforms** neu o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n cynnig gwasanaethau ar gyfer Cerbydau a Gyrru. Os ydych yn ddaliwr trwydded lori, fws neu fws mini mae angen i chi lenwi 'Cais am drwydded yrru ar gyfer lori, fws neu fws mini' (D2) y gellir ei harchebu o **www.gov.uk/dvlaforms** neu wrth Swyddfa'r Comisiynwyr Traffig.

Bydd raid i chi fynd am archwiliad meddygol y bydd raid i chi dalu amdano.

### A oes gennyf hawl i yrru cyn i mi dderbyn fy nhrwydded yrru?

- Os dechreuwyd eich gwaharddiad cyn **1 Mehefin 2013**, cewch yrru ar yr amod bod eich gwaharddiad wedi dod i ben a bod DVLA wedi derbyn cais dilys am drwydded yrru newydd ynghyd a'r ffi gywir.
- Os dderbyniwch eich trwydded yrru yn ôl cyn i'ch gwaharddiad ddod i ben, ni allwch yrru nes y dyddiad cychwyn ar eich trwydded yrru.



- Os dechreuwyd eich gwaharddiad ar neu **ar ôl 1 Mehefin 2013** ni chewch yrru nes i'ch trwydded chael ei chyhoeddi. Os wnewch yrru cyn hynny fe fyddwch yn cyflwyno trosedd.
- Gellir unrhyw oedi cyn mynd am archwiliad meddygol olygu efallai ni fedrwch yrru pan mae'ch gwaharddiad yn dod i ben nes cwblheir y broses feddygol a'r penderfyniad am y drwydded.

### Beth mae'r archwiliad meddygol yn ei olygu?

Bydd yr asesiad yn golygu:

- cwblhau holiadur meddygol am eich hanes meddygol perthnasol a'ch defnydd o alcohol
- archwiliad corfforol, a
- profion gwaed

Byddwch fel arfer angen tynnu rhai o'ch dillad ar gyfer yr archwiliad corfforol.

Ni chewch eich trwydded yrru yn ôl os fel canlyniad i'r asesiad meddygol:

- mae tystiolaeth o gamddefnydd parhaus ar alcohol o fewn y chwe mis diwethaf neu ddibyniaeth o fewn y 12 mis diwethaf; neu
- mae tystiolaeth o gamddefnydd neu ddibyniaeth parhaus ar hyn o bryd.

Mynnir hyn er mwyn sicrhau na fyddwch yn risg i eraill ar y ffordd.

Os bydd gennych unrhyw amheuon ynghylch eich gallu i yrru, yn enwedig ynghylch unrhyw broblemau cysylltiedig ag alcohol, iechyd meddwl, cyffuriau neu unrhyw broblemau meddygol eraill dylech drafod y mater gyda'ch meddyg eich hun cyn i chi gyflwyno eich cais.

Efallai y bydd yn gwneud synnwyr i ystyried gohirio'ch cais nes eich bod yn abl i fodloni safonau meddygol.



**Rydw i wedi bod ar Gwrs Ailsefydlu yfed a gyrru. Fydd raid i mi hefyd gael archwiliad meddygol?**

Os byddwch yn dod o fewn categori HRO, bydd dal angen archwiliad meddygol. Mae'r broses HRO yn ofyniad cyfreithiol i bob gyrrwr sydd wedi'i wahardd am yfed a gyrru.

Bydd y cwtogiad yng nghyfnod y gwaharddiad i'r rheiny fydd wedi bod ar gwrs ailsefydlu ond yn caniatáu i yrrwr wneud cais am drwydded yn gynt.

Os ydych wedi cael eich cyfnod gwaharddiad wedi cytogi efallai na fyddwch yn derbyn hysbysiad i wneud cais am eich trwydded oddi wrthym ni. Yn y sefyllfa yma bydd angen llenwi D1W arnoch.

**Beth ddylwn i wneud pe byddwn i'n symud tŷ yn ystod y cyfnod y byddwn i wedi fy ngwahardd rhag gyrru?**

Dylech roi manylion eich cyfeiriad newydd i ni i wneud yn sicr eich bod yn derbyn eich ffurflenni cais am eich trwydded yrru cyn ddaw eich gwaharddiad i ben.

Gallwch ddweud wrthym am eich manylion personol newydd drwy ysgrifennu at DVLA Abertawe SA99 1TU.

**Faint fydd raid i mi dalu i wneud cais am fy nhrwydded yrru?**

Bydd raid i chi dalu'r meddyg am yr archwiliad meddygol. Bydd meddygon fydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW hefyd yn codi TAW ar ben y ffi am yr archwiliad.

Bydd raid i chi hefyd talu ffi i ni am eich trwydded gyrru.

I gael y ffioedd trwyddedau gyrru mwyaf diweddar ewch i **www.gov.uk/driving-licence-fees**

## Cysylltiadau

Cyfeiriad: Grŵp Meddygol Gyrwyr
DVLA
Abertawe
SA99 1TU.

Rhif ffôn: 0300 790 6806

Gwefan: **www.gov.uk/driving-medical-conditions**

Ebost: **www.gov.uk/contact-the-dvla**

Ers **8 Mehefin 2015** nid yw gwrthddalen y drwydded cerdyn-llun yn ddilys ac nid yw yn cael ei gyhoeddi mwyach gan DVLA.

**www.gov.uk/dvla/nomorecounterpart**